OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2003 Rhif 1844 (Cy.196)

ANIFEILIAID, CYMRU
ATAL CREULONDEB

Gorchymyn Diogelu Anifeiliaid (Anesthetyddion) Diwygio (Cymru) 2003

Wedi'i wneud	- -	*16 Gorffennaf 2003*
Yn dod i rym	- -	*18 Gorffennaf 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adran 1 o Ddeddf Diogelu Anifeiliaid (Anesthetyddion) 1954(**1**) ac a freiniwyd ynddo bellach(**2**), ar ôl ymgynghori â Choleg Brenhinol y Llawfeddygon Milfeddygol ac â'r personau hynny y mae'n ymddangos i Gynulliad Cenedlaethol Cymru eu bod yn cynrychioli'r buddiannau amaethyddol, y mae'n ymddangos i'r Cynulliad Cenedlaethol eu bod yn briodol, yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Teitl, cymhwyso a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Diogelu Anifeiliaid (Anesthetyddion) Diwygio (Cymru) 2003, mae'n gymwys mewn perthynas â Chymru a daw i rym ar 18 Gorffennaf 2003.

Diwygio Deddf Diogelu Anifeiliaid (Anesthetyddion) 1954

2. Ym mharagraff 6 o Atodlen 1 (Gweithrediadau a Eithrir) i Ddeddf Diogelu Anifeiliaid (Anesthetyddion) 1954 yn lle'r geiriau "in Wales, 4 weeks" rhoddir "in Wales, 8 days"(**3**).

(**1**) 1954 p. 46.
(**2**) Yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) Diwygiwyd paragraff 6 ynghylch Lloegr gan Orchymyn Diogelu Anifeiliaid (Anesthetyddion) (Diwygio) (Rhif 2) (Lloegr) 2003. (O.S. 2003/1328).